

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Tŷ Llidiard

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 11, 12 a 13 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-269-0

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	27
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	29
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Tŷ Llidiard, Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 11, 12 a 13 Medi 2023.

Mae Tŷ Llidiard yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Mae'r uned yn cynnwys dwy ward:

- Ward Enfys, sy'n darparu'r prif ofal o ddydd i ddydd
- Ward Seren, sy'n darparu cyfnodau byr o ofal aciwt i'r rheini y gall fod ei angen arnynt.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofaluwr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 4 holiadur gan gleifion neu eu gofaluwr a chwblhawyd naw gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cawsom adborth cadarnhaol gan y bobl ifanc a gwblhaodd holiadur AGIC, a'r rheini y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, am eu profiadau yn yr uned.

Roedd y ddarpariaeth therapi a oedd ar gael yn yr uned wedi cael ei chynyddu ers ein harolygiad blaenorol er mwyn cefnogi'r bobl ifanc. Roedd amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden ar gael i'r bobl ifanc.

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth berthnasol a phriodol ar gael i'r bobl ifanc, naill ai wedi'i harddangos neu wedi'i chynnwys mewn llyfryn gwybodaeth a roddwyd yn ystod y broses dderbyn. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r bobl ifanc er mwyn rhoi cymorth a gwybodaeth iddynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i edrychiad ardaloedd awyr agored yr uned gael ei wella er budd therapiwtig y bobl ifanc.
- Dylai dewis iaith pob person ifanc gael ei gofnodi yn rhywle hygyrch er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol ohono.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rhagenwau a ffefrir pobl ifanc yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd bellach yn wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt pan gawsant eu geni wedi cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion hynny er mwyn i bob aelod o'r staff fod yn ymwybodol ohonynt.
- Roedd y staff addysg yn ymroddedig ac yn ofalgar a gwnaethant nodi bod amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn briodol ac yn addas i gynnig cyfleoedd addysgol a dysgu i'r bobl ifanc.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod prosesau ar waith yn Tŷ Llidiard i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y bobl ifanc, y staff ac ymwelwyr â'r uned. Gwelsom fesurau addas i ddiogelu'r bobl ifanc. Roedd y staff yn wybodus am anghenion a risgiau pob un o'r bobl ifanc, a oedd yn golygu eu bod yn hyderus i reoli eu gofal. Roedd system electronig sefydledig ar waith a oedd y galluogi'r staff i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau yn briodol.

Roedd ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arnynt wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol, ac roeddent bellach yn

canolbwyntio'n fwy ar y claf, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac wedi'u datblygu ar y cyd â'r person ifanc. Gwelsom sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) ar bob ward a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda. Roedd y dogfennau cadw statudol y gwnaethom edrych arnynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud nifer o welliannau mewn perthynas â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn yr uned.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw mewn rhai ardaloedd o'r uned
- Roedd ystafell y clinig yn gynnes iawn ac mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir
- Dylid adolygu'r amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael i'r bobl ifanc ar y fwydlen, a pha mor aml y maent ar gael
- Rhaid i'r asesiadau o alluedd meddyliol y bobl ifanc gael eu cwblhau gan ddefnyddio'r ffurflenni asesu galluedd sydd ar gael a'u storio'n briodol yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn gadarnhaol gweld y duedd tuag i lawr yn nifer yr achosion o atal yn gorfforol yn yr uned dros y 12 mis diwethaf, a oedd yn helpu i ddangos bod y staff yn defnyddio'r dulliau lleiaf cyfyngol yn llwyddiannus.
- Roedd y prosesau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i helpu i gefnogi'r bobl ifanc a'r staff yn ystod amseroedd bwyd wedi cael eu cryfhau ers ein harolygiad diwethaf.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn amlwg bod Tŷ Llidiard wedi bod ar daith tuag at wella ers ein harolygiad blaenorol. Gwelsom newid cadarnhaol yn niwylliant, awyrgylch ac amgylchedd yr uned gyfan. Roedd yn ymddangos bod y newidiadau wedi'u gwneud drwy ymdrech ar y cyd gan yr uwch-reolwyr, y staff a'r bobl ifanc eu hunain, a dylid cydnabod y cynnydd hwn.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff y byddent yn argymhell yr uned fel lle i weithio ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr uned ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu. Roedd prosesau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith mewn perthynas â gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â gofal y cleifion a nodi gwelliannau.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o'r staff fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Ar adeg ein harolygiad, roedd yn ymddangos bod niferoedd digonol o staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion a aseswyd y bobl ifanc yn yr uned. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff fod prinder staff ac nad oedd eu patrwm gweithio presennol yn rhoi cydbwysedd da iddynt rhwng gwaith a bywyd. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd drafod yr adborth hwn â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn llawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r staff gael hyfforddiant ar y ddyletswydd gonestrwydd er mwyn eu helpu i ddeall eu cyfrifoldebau o ran helpu i fodloni'r gofynion cyfreithiol newydd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cawsom adborth cadarnhaol gan y bobl ifanc a gwblhaodd holiadur AGIC, a'r rheini y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, am eu profiadau yn yr uned. Cafwyd canmoliaeth gan y bobl ifanc i'r gofal a ddarparwyd a'r rhyngweithio rhyngddynt a'r staff. Dywedodd pob un o'r bobl ifanc a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth roeddent wedi ei gael 'dda iawn'. Yn bwysig dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn hapus iawn yn yr uned a'u bod yn teimlo'n ddiogel.

Gwnaeth un perthynas y sylw canlynol:

“Rwyf wedi gweld gwahaniaeth mawr y tro hwn o gymharu â'r tro diwethaf roedden ni yma; mae'n llawer gwell.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri chlaf yn ystod yr arolygiad a gwelsom dystiolaeth bod anghenion iechyd corfforol y bobl ifanc wedi cael eu hystyried yn ogystal â'u gofal iechyd meddwl. Roedd y bobl ifanc wedi cael asesiadau gofal iechyd corfforol priodol wrth gael eu derbyn ac roeddent wedi cael gwasanaethau gofal iechyd perthnasol megis gofal deintyddol pan oedd angen. Yn gyffredinol, gwelsom fod eu cynlluniau gofal yn trafod yr arsylwadau corfforol parhaus yr oedd angen eu cynnal yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Fodd bynnag, gwelsom fod un person ifanc wedi cael diagnosis o orthorecsia wrth gael ei dderbyn, ond nad oedd llwybr triniaeth clir wedi cael ei roi ar waith eto.

Er mai dyma'r unig achos o'i fath, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob person ifanc yn cael triniaeth sy'n benodol ar gyfer ei ddiagnosis unigol a bod hyn yn cael ei ddogfennu'n glir yng nghofnod y claf.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden ar gael i'r bobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys neuadd chwaraeon, ystafell creffttau ac ystafell gemau, yn cynnwys bwrdd pêl a pheiriant arcêd. Dywedwyd wrthym yr eir â'r bobl ifanc i'r gymuned yn rheolaidd er mwyn iddynt gael newid cynefin.

Roedd gan yr uned erddi dynodedig lle y gallai'r bobl ifanc dreulio amser yn yr awyr iach. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud nifer o welliannau yn yr ardaloedd hyn:

- Roedd llawer o weoedd pryfed cop ar y tu allan i bob un o'r ffenestri
- Roedd y dodrefn awyr agored, gan gynnwys y cadeiriau, yn fudr
- Roedd chwyn yn tyfu rhwng y cerrig palmant
- Roedd y pren ar y gwelyau blodau yn dechrau pydru'n ddim mewn manau
- Roedd rhywfaint o waith wedi cael ei wneud ychydig fisoedd cyn ein harolygiad i chwynnu'r gerddi ond gwelsom fod y chwyn wedi cael eu gadael mewn bagiau yn yr ardd yn hytrach na'u gwaredu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella edrychiad y gerddi er budd therapiwtig y bobl ifanc a sicrhau y cânt eu cynnal a'u cadw'n barhaus yn y dyfodol.

Gofal Urddasol a Pharchus

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn ymgysylltu ac yn siarad yn briodol â'r bobl ifanc ac yn eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol wrth i'r staff roi sylw i anghenion unigol y bobl ifanc. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw, a'r rhai a gwblhaodd holiadur, eu bod wedi cael eu trin â pharch.

Roedd gan bob person ifanc ei ystafell wely a'i ystafell ymolchi ei hun, a oedd yn cynnig lefel addas o breifatrwydd ac urddas iddo. Gallai'r bobl ifanc storio eiddo personol a phersonoli eu hystafelloedd gwely â lluniau a phosteri lle y bo'n briodol. Roedd asesiadau risg unigol ar waith i bennu a allent gloi eu hystafell wely a defnyddio ardaloedd preifat. Roedd drws pob ystafell wely yn cynnwys panel arsylwi er mwyn i'r staff allu cwblhau arsylwadau gweledol heb fawr ddim effaith ar y person ifanc. Teimlai pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur fod preifatrwydd ac urddas y bobl ifanc yn cael eu cynnal bob amser.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth berthnasol a phriodol yn cael ei harddangos i'r bobl ifanc yn nerbynfaf'r uned. Roedd hyn yn cynnwys manylion am sut y gallai'r bobl ifanc a'u perthnasau neu eu gofalwyr gysylltu â gwasanaethau eiriolaeth a defnyddio'r gwasanaethau hynny, gwneud cwyn, a chysylltu ag AGIC pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd bwrdd 'pwy yw pwy' a oedd yn cynnwys llun o bobl aelod o staff yr uned hefyd i'w weld yn y dderbynfaf, a gwnaethom nodi bod hyn yn nodwedd gadarnhaol. Gwnaethom sylwi mai ym mis Gorffennaf 2023 y cafodd y bwrdd ei ddiweddarau ddiwethaf, felly gwnaethom atgoffa'r gwasanaeth i sicrhau bod y bwrdd yn cael ei ddiweddarau'n barhaus.

Yn ogystal â'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos, dywedwyd wrthym fod pob person ifanc yn cael llyfryn gwybodaeth wrth gael ei dderbyn. Gwnaethom edrych ar y llyfryn a gwelsom ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

Gwelsom fod yr holl wybodaeth sensitif am bob person ifanc a oedd yn cael gofal yn yr uned yn cael ei chadw mewn ardaloedd diogel priodol ac allan o'r golwg er mwyn helpu i sicrhau cyfrinachedd.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd yn gadarnhaol gweld bod cynnydd wedi cael ei wneud mewn perthynas ag ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth ers ein harolygiad blaenorol o'r uned ym mis Tachwedd 2021. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt y tro hwn yn cynnwys ffocws clir ar ddefnyddio cryfderau unigol y bobl ifanc i'w helpu i wella. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys nodau clir a chyflawnadwy. Roeddent yn cynnwys ymyriadau therapiwtig a chymdeithasol, nodau penodol ar gyfer rhyddhau'r person ifanc, a sut y byddai'r nodau'n cael eu cyflawni.

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwnaethom hefyd nodi pryderon y staff ynglŷn â chapasiti llai y tîm therapiau. Nodwyd canfyddiad tebyg yn ystod adolygiad o'r uned a gynhaliwyd gan yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol ym mis Mawrth 2022. Un o gasgliadau adroddiad yr Uned oedd bod y mewnbwn therapi yn annigonol i fodloni gofynion y bobl ifanc yn yr uned. Felly, roedd yn galonogol gweld bod gwaith wedi'i wneud ers hynny i wella darpariaeth y mewnbwn therapi sydd ar gael yn yr uned. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno arweinydd therapi amlbroffesiynol, creu tîm gweithgareddau, gwella'r therapi galwedigaethol a ddarperir a recriwtio therapydd teulu. Dywedwyd wrthym fod rhai swyddi'n wag o hyd, a bod yn rhaid i'r gwasanaeth barhau i geisio sicrhau bod gan yr uned dîm therapiau sylweddol i gefnogi'r bobl ifanc.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd amserol pan ofynnwyd iddynt. Dywedodd y bobl ifanc a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gweld eu nyrs allweddol ddynodedig bob dydd a bod y staff yn darparu gofal a thriniaeth iddynt pan oedd angen.

Roedd prosesau ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael gofal amserol ac effeithiol yn unol â'u hanghenion unigol a chlinigol. Roedd cyfarfod diogelwch o'r enw 'Payover' yn cael ei gynnal bob bore er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol a'r uwch-reolwyr am unrhyw faterion

newydd. Aethom i un o'r cyfarfodydd hyn a gwelsom drafodaethau da yn cael eu cynnal am bob person ifanc a'i anghenion, a oedd yn cynnwys trafodaethau am unrhyw ofynion o ran arsylwi.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y bobl ifanc a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau er mwyn eu helpu i'w deall.

Dywedwyd wrthym y gallai perthnasau neu ofalwyr ymweld â'r bobl ifanc yn yr uned y tu allan i amseroedd bwyd. Cadarnhaodd y bobl ifanc a gwblhaodd holiadur eu bod wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teulu ers iddynt gael eu derbyn i'r uned.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion, arwyddion a phosteri dwyieithog wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r uned. Roedd y staff yn gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' i ddangos i'r cleifion eu bod yn siarad Cymraeg.

Dywedodd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt beth oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, yn ystod ein cyfnod yn yr uned, nid oedd bob amser yn glir beth oedd dewis iaith pob person ifanc.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewis iaith pob person ifanc yn cael ei gofnodi'n glir yn rhywle lle y gall y staff ei weld yn hawdd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion tri pherson ifanc a oedd wedi cael eu cadw yn yr uned o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod). Nodir ein prif ganfyddiadau am ansawdd y ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol fel rhan o'u rôl. Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a oedd yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, gwelsom mai'r dyddiad adolygu ar y polisi y gwnaethom edrych arno oedd mis Hydref 2021, a oedd yn awgrymu nad oedd y polisi yn gyfredol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod rhagenwau a ffefrir pobl ifanc yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd bellach yn wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt pan gawsant eu geni, wedi cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion hynny er mwyn i bob aelod o'r staff fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae'n ofynnol i bob person ifanc fynychu'r ganolfan ddysgu yn yr uned er mwyn parhau â'i astudiaethau addysgol. Mae hyn yn unol ag Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n pennu bod gan blant yr hawl i gael addysg. Gwnaethom arsylwi ar wers yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn ymroddedig ac yn ofalgar a bod amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn briodol ac yn addas i gynnig cyfleoedd addysgol a dysgu addas i'r bobl ifanc.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod prosesau ar waith yn Tŷ Lldiard i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y bobl ifanc, y staff ac ymwelwyr â'r uned. Roedd y brif fynedfa i'r adeilad wedi'i chloi drwy gydol yr arolygiad er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio pe bai argyfwng.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith. Roedd gwiriadau amgylcheddol ac archwiliadau priodol eraill yn cael eu cynnal er mwyn nodi unrhyw faterion yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth bod camau wedi cael eu cymryd mewn ymateb i unrhyw risgiau a nodwyd. Roedd cofrestrau risg yn cael eu cynnal a oedd yn cynnwys nodi pwyntiau clymu posibl. Roedd y staff yn gwybod ble roedd y torwyr clymau yn cael eu cadw ym mhob rhan o'r uned i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio.

Gwelsom fod y brif ward wedi cael ei hadnewyddu a'i hailaddurno ers ein harolygiad blaenorol. Dywedwyd wrthym fod y gwaith hwn wedi cael ei adolygu gan ystyried sylwadau gan y staff a'r bobl, a oedd yn fenter gadarnhaol. Roedd murluniau lliwgar bellach i'w gweld ar yr y waliau, a oedd yn cyfleu pedair egwyddor Tŷ Lldiard, sef Tawel, Gofalgar, Hyderus a Thosturiol.

Gwelsom fod y ffitiadau a'r gosodiadau mewn cyflwr da ar y cyfan, a'u bod yn briodol i'r bobl ifanc. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd lle roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw:

- Roedd angen ail-baentio waliau'r coridor ar Ward Seren
- Roedd angen ailblastro'r wal yn yr hen ystafell fwyta ar Ward Seren, gan dynnu'r plaster oddi ar y wal
- Nid oedd y goleuadau yn gweithio yn y gegin ar Ward Enfys
- Roedd wyneb un o'r droriau yn yr ystafell drin ar Ward Enfys hefyd wedi'i ddifrodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw waith atgyweirio a chynnal a chadw ei gwblhau mewn modd amserol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r gwahanol weithdrefnau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith er mwyn cadw'r staff a'r bobl ifanc yn ddiogel Gwelsom dystiolaeth bod amserlenni glanhau domestig yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r ward. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Roedd archwiliadau rheolaidd, megis archwiliadau hylendid dwylo, wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn yr uned. Manylir ar y rhain isod.

Roedd yn ymddangos bod y staff nyrsio, y staff cadw tŷ a'r staff cynnal a chadw yn ymdrin â'r gwaith glanhau ar y cyd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi ynghynt yn yr adroddiad ein bod wedi gweld bod y dodrefn awyr agored yn fudr. Gwnaethom siarad â'r staff am hyn, ond nid oeddent yn siŵr pwy oedd yn gyfrifol am lanhau'r dodrefn awyr agored. At hynny, cafwyd yr awgrym canlynol ar gyfer gwella gan un o'r aelodau o staff o gwblhaodd yr holiadur:

“Mae angen i'r staff glanhau wella hylendid toiledau'r staff.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi eglurder ac arweiniad ar gyfrifoldebau'r staff er mwyn sicrhau y caiff yr ardaloedd awyr agored a thoiledau'r staff eu glanhau'n effeithiol.

Dywedodd y staff fod cyfarpar meddygol aml dro yn cael ei lanhau bob tro ar ôl iddo gael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gofnodion i ddangos bod y cyfarpar hwn yn cael ei lanhau. Gwelsom hefyd fod y peiriant ECG yn llychlyd, a oedd yn golygu na ellid rhoi sicrwydd bod y cyfarpar yn cael ei lanhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith i roi gwybod i'r staff pan fydd y cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau ac, felly, yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym fod arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig yn yr uned. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â nifer o aelodau gwahanol o'r staff nad oeddent yn gwybod pwy oedd yr arweinydd atal a rheoli heintiau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl aelodau o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd atal a rheoli heintiau ac yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau er mwyn iddynt allu uwchgyfeirio unrhyw bryderon a all fod ganddynt yn briodol.

Yn ystod ein taith o amgylch yr uned, dangoswyd yr ystafell golchi dillad i ni. Dim ond un peiriant golchi ac un peiriant sychu dillad oedd yn yr ystafell. Efallai y bydd

y bwrdd iechyd yn dymuno ystyried a yw hyn yn ddigon ar gyfer yr holl bobl ifanc yn yr uned. Roedd yr ystafell hefyd yn boeth iawn, ac roedd y tyllau awyru yn y nenfwd yn llychlyd. Dywedwyd wrthym y gall drws yr ystafell fod yn anodd ei agor, o bosibl am fod tymheredd yr ystafell yn achosi i'r pren chwyddo. Roedd tymheredd uchel yr ystafell hefyd yn achosi i'r ystafelloedd cyfagos fod yn gynhesach na'r arfer.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd a wneir o'r ystafell golchi dillad er mwyn gwella ei chyflwr a gostwng ei thymheredd fel ei bod yn fwy cyfforddus i'r staff ei defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i ddiogelu'r bobl ifanc. Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ar waith, ac roedd arweinydd diogelu dynodedig wedi cael ei benodi ar gyfer yr uned. Roedd prosesau sefydledig ar waith ac roedd atgyfeiriadau yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd. Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau a phryderon diogelu yn cael eu trafod yn rheolaidd rhwng uwch-aelodau o'r staff a'r tîm aml-ddisgyblaethol er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisiâu perthnasol, fel rheoli meddyginiaethau a thawelyddu cyflym, ar gael i'r staff. Fodd bynnag, gwelsom mai'r dyddiad adolygu ar y polisi rheoli meddyginiaethau y gwnaethom edrych arno oedd mis Hydref 2017, a oedd yn awgrymu bod y polisi wedi dyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi rheoli meddyginiaethau ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.

Roedd yr ystafell clinig yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roedd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael ei wirio'n ddyddiol. Fodd bynnag, gwelsom nifer bach o fylchau ar y daflen cofnodi tymheredd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath.

Roedd yr ystafell clinig wedi'i lleoli wrth ymyl yr ystafell golchi dillad, a gwelsom fod tymheredd yr ystafell clinig hefyd yn boeth iawn yn ystod yr arolygiad. Roeddem yn bryderus nad oedd tymheredd yr ystafell yn cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod bob amser islaw'r tymheredd storio a argymhellir ar gyfer y feddyginiaeth yn yr ystafell. Gwnaethom godi hyn gydag aelodau o'r staff, a

brynodd thermometr er mwyn dechrau gwirio'r tymheredd. Dywedwyd wrthym hefyd y gellid prynu uned aerdymheru er mwyn gostwng tymheredd yr ystafell.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC am y camau a gymerwyd ers yr arolygiad i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Er bod y cypyrddau meddyginiaeth wedi'u cloi, gwelsom fod rhai deunyddiau glanhau fel Sterichlor yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi o dan y sinc.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a allai fod yn niweidiol yn cael eu storio'n briodol dan glo bob amser.

Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gwybod beth i'w wneud pe bai rhywun yn cael adwaith andwyol i gyffur.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu hyfforddiant i'r staff er mwyn egluro'r hyn a ddisgwylir gan staff mewn perthynas â rhoi gwybod i'r cyrff perthnasol, er enghraifft yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, am adweithiau andwyol i gyffuriau drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.

Gwnaethom edrych ar sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) ar bob ward a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda. Roedd y siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi pan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi. Roedd gwiriadau stoc priodol yn cael eu cynnal a dywedodd y staff nyrsio wrthym eu bod y cael cymorth da gan y tîm fferyllol yn Ysbyty Tywysoges Cymru gerllaw.

Ymddygiad heriol

Roedd mesurau priodol ar waith i helpu'r staff i ymdrin ag ymddygiad heriol. Roedd polisïau perthnasol, megis lleihau arferion cyfyngol, lleihau achosion o atal cleifion yn gorfforol, ac ymgysylltu ac arsylwi therapiwtig, ar waith ac yn gyfredol. Roedd y staff yn wybodus am anghenion a risgiau pob un o'r bobl ifanc, a oedd yn golygu eu bod yn hyderus i reoli eu gofal.

Roedd egwyddorion cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn cael eu defnyddio i bennu lefel y risg ac i annog pobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Cawsom sicrwydd mai dim ond fel dewis olaf yr oedd ymyriadau corfforol yn cael eu defnyddio. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys strategaethau personol ar gyfer rheoli ymddygiad heriol ac yn dangos ymdrechion i ddefnyddio'r dulliau lleiaf cyfyngol, fel ceisio tawelu ar lafar, ailgyfeirio a gwahanu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy sesiynau dadfriffio yn dilyn unrhyw achosion o gyfyngu.

Roedd yn gadarnhaol gweld y duedd tuag i lawr yn nifer yr achosion o atal yn gorfforol yn yr uned dros y 12 mis diwethaf, a oedd yn helpu i ddangos bod y staff yn defnyddio'r dulliau lleiaf cyfyngol yn llwyddiannus. Gwelsom y staff yn cynnal arsylwadau yn ystod yr arolygiad a nodwyd eu bod yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i gleifion ac mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y bwrdd iechyd. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff hefyd ei fod yn fodlon ar ymdrechion y bwrdd iechyd i gadw'r staff a'r bobl ifanc yn ddiogel.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd hierarchaeth ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu llunio a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid monitro a dadansoddi faint o ddigwyddiadau oedd yn codi. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau wythnosol yn cael eu gwneud ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys ar y ward Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael, ei fod yn gyfredol a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio pe byddai argyfwng fel claf yn llewygu.

Cofnodion y cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf ffeiliau papur a oedd yn cael eu storio mewn

swyddfeydd wedi'u cloi. Gwelsom fod y ffeiliau papur yn cael eu storio mewn troli heb ei gloi yn y swyddfa. Efallai y bydd y bwrdd iechyd y dymuno ystyried a yw'r trefniadau hyn yn ddigon i ddiogelu cyfrinachedd cleifion ac atal mynediad heb awdurdod.

Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac o ansawdd da, ac roeddent wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol. Roedd y cofnodion yn drefnus iawn, a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd symud drwy'r adrannau.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cynlluniau gofal a thriniaeth a gwblhawyd yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc cyn iddynt gael eu derbyn i Tŷ Llidiard ar gael, neu

nad oeddent yn cael eu cadw yng nghofnodion cleifion fel mater o drefn. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau yr eir ar drywydd unrhyw gynlluniau gofal a thriniaeth cymunedol ac y cânt eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion yn yr uned.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Maeth a hydradu

Gwelsom dystiolaeth bod anghenion maeth a hydradu'r bobl ifanc yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Adnodd Sgrinio Maeth St Andrews (SANSI). Roedd pob person ifanc yn dilyn deiet a oedd yn briodol i'w anghenion meddygol. Roedd deietegydd dynodedig yn yr uned a oedd yn monitro cymeriant bwyd a diod y bobl ifanc bob dydd. Dywedwyd wrthym y byddai'r bobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Therapi Lleferydd ac laith cymunedol pe bai angen.

Roedd y prosesau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i helpu i gefnogi'r bobl ifanc a'r staff yn ystod amseroedd bwyd wedi cael eu cryfhau ers ein harolygiad diwethaf. Gwelsom fod y deietegydd wedi llunio taflen wybodaeth i'r bobl ifanc a oedd yn esbonio'r broses o ran bwyd ac amseroedd bwyd yn Tŷ Llidiard, er mwyn helpu i leddfu unrhyw bryderon a allai fod gan y bobl ifanc. Roedd canllawiau cymorth yn ystod amseroedd bwyd hefyd wedi cael eu llunio er mwyn helpu'r staff i ddeall yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig ganddynt ac esbonio'r ffordd orau y gallent gefnogi'r bobl ifanc. Roedd polisi cyfredol ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer y bobl ifanc hynny a oedd yn cael maetholion a hylifau drwy diwb nasogastrig.

Roedd y bwyd a welsom yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn flacus. Dywedwyd wrthym fod y bobl ifanc yn dewis o fwydlen sy'n cylchdroi bob pythefnos ar hyn o bryd. Roeddem o'r farn y byddai ymestyn y cyfnod cylchdroi yn cynnig mwy o amrywiaeth i'r bobl hynny sy'n treulio cyfnodau hwy o amser yn yr uned. Cawsom sylw tebyg gan un o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiadur, a ddywedodd wrthym:

“Mae angen i'r staff arlwygo wella'r dewisiadau ar y fwydlen a chynnig mwy o hyblygrwydd.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth hwn ac ystyried, ar y cyd â'r staff a'r bobl ifanc, a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r dewisiadau ar y fwydlen a'u hamlder.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio gofal a darpariaeth

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, roedd ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arnynt wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol. Dywedwyd wrthym am y gwaith gwella yr oedd y staff wedi'i wneud yn y maes hwn yn dilyn ein hymweliad, ac roedd yn gadarnhaol gweld y cynnydd a oedd wedi'i wneud. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael eu diwygio i adlewyrchu wyth maes bywyd person a nodir yn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws cydnabod llais y claf ac roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth bellach yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac wedi'u datblygu ar y cyd â'r person ifanc.

Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld bod y staff yn gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei gynnwys yn fwy yn ei rownd ward ei hun. Gwahoddir pob person ifanc i'r cyfarfod â'r tîm aml-ddisgyblaethol er mwyn trafod ei driniaeth barhaus. Dywedwyd wrthym fod nifer y bobl ifanc sy'n mynychu eu rownd ward wedi gwella, a oedd yn rhoi gwell cyfleoedd iddynt leisio eu hanghenion a'u dymuniadau.

Ochr yn ochr â'r cynlluniau gofal a thriniaeth, roedd asesiad risg Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru ar waith ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar gyfer pob person ifanc.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar gofnodion dogfennaeth cadw statudol tri pherson ifanc sy'n byw yn yr uned ar hyn o bryd. Roedd yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer. Roedd rhesymau clir yn cael eu dogfennu i ddangos pam mai ei gadw o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r person ifanc.

Roedd ffeiliau o ddogfennau statudol allweddol papur yn cael eu cadw ar y ward, ac roedd copïau electronig yn cael eu cadw gan dîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom hen ffurflen HO14 yn y ffeil o ddogfennau papur a oedd yn awgrymu bod cyfnod cadw'r person ifanc wedi dod i ben. Fodd bynnag, roedd y ddogfen gywir a chyfredol ar gael yn electronig. Er y cawsom sicrwydd mai dyma'r unig achos o esgeulustod o'i fath, dylai'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff o bwysigrwydd cadw'r dogfennau papur cywir.

Dywedwyd wrthym y rhoddir gwybod i'r bobl ifanc am eu hawliau o ran cael eu cadw yn yr uned. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod y bobl ifanc yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'u hawliau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff y rhoi gwybod i'r bobl ifanc am eu hawliau yn rheolaidd yn unol â Chod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru, yn arbennig yn dilyn newid i amgylchiadau'r person ifanc.

Dywedwyd wrthym y gofynnir i'r bobl ifanc bob dydd Sul a ydynt yn dymuno cael cymorth eirioli yn ystod yr wythnos sydd i ddod. Cadarnhaodd y bobl ifanc a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael cynnig cymorth eiriolwr. Roedd hyn yn welliant cadarnhaol ers ein harolygiad blaenorol, pan ddywedodd rhai o'r bobl ifanc nad oeddent yn gwybod pryd y byddai'r eiriolwr ar gael.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain mewn perthynas â'u triniaeth, rhoi meddyginiaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig. Fodd bynnag, dim ond nodiadau elfennol am asesiadau o alluedd a oedd wedi'u cynnwys yng nghofnodion y cleifion. Er enghraifft, er bod ffurflen asesu galluedd ar gael yn yr uned, yr unig gyfeiriad y gallem ei weld yng nghofnod un claf at asesiad galluedd a gynhaliwyd oedd nodyn gan y meddyg yn ystod y rownd ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o alluedd meddyliol y bobl ifanc eu cwblhau gan ddefnyddio'r ffurflenni asesu galluedd sydd ar gael ac y cânt eu storio'n briodol yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod ansawdd dogfennau absenoldeb Adran 17 wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol. Roedd y dogfennau absenoldeb bellach yn cynnwys tystiolaeth bod asesiadau risg addas yn cael eu cynnal ar gyfer absenoldebau a bod asesiadau o'r canlyniadau yn cael eu cwblhau ar ôl i'r cyfnod o absenoldeb gael ei adolygu.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd ymatebion y staff i holiaduron AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y mwyafrif o'r staff y byddent yn argymhell yr uned fel lle i weithio ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr uned ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol am weithio yn yr uned:

“Fel tîm, rydym yn falch iawn o'r gofal a'r driniaeth rydym yn eu darparu i'r cleifion a'u teuluoedd yn dilyn cyfnod negyddol o graffu ar y diwylliant a'r arweinyddiaeth. Mae gennym dîm cryf/cadarn o uwch-reolwyr sy'n dryloyw, yn gefnogol ac yn ymroddedig, nid yn unig i'r cleifion ond i holl ddisgyblaethau tîm Tŷ Llidiard.”

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff nad oedd eu gwaith yn andwyol i'w hiechyd ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r staff nad oedd eu patrwm gweithio cyfredol yn rhoi cydbwysedd da iddynt rhwng gwaith a bywyd. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â dymuniadau staff i weithio oriau safonol hwy (shifftiau 12 awr). Gwnaed y sylwadau canlynol:

“Mae llawer o'r staff yn gadael am eu bod am weithio shifftiau 12 awr a chael cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd. Fel mae pethau ar hyn o bryd, gallwn i fod yn gweithio 10 shifft yn olynol, sy'n achosi blinder a straen. Rwyf wrth fy modd yn yr uned, ond mae angen gwneud newidiadau i'r lefelau staffio neu gyflwyno shifftiau 12 awr er mwyn fy atal i ac eraill rhag gadael.”

“Byddai shift dydd hir yn gwella ein gwasanaeth, yn enwedig o ystyried y lefelau staffio ar hyn o bryd. Rwy'n credu y byddai'n gwella morâl yn aruthrol, a hefyd yn helpu i gadw staff gan fod staff bob amser yn dweud eu bod yn gadael er mwyn cael cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd.”

Gwyddom fod staff wedi cael gwybod drwy erthygl yng nghylchlythyr staff Mehefin 2023 na fyddai shifftiau 12 awr yn cael eu cyflwyno yn Tŷ Llidiard. Gwelsom fod yr erthygl yn esbonio'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod hyd y shifftiau wedi parhau i beri pryder ymhlith y staff.

Er ei bod yn bosibl nad yw shifftiau 12 awr yn briodol ar gyfer Tŷ Llidiard, rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrto ar yr adborth hwn a pharhau i drafod y mater hwn â'r

staff, er mwyn nodi datrysiadau amgen posibl a fydd yn helpu i leddfu pryderon y staff a gwella eu cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Yn dilyn ein hymweliad diwethaf â Tŷ Llidiard, gwnaethom nodi y bu materion hysbys iawn yn yr uned mewn perthynas â diwylliant, arweinyddiaeth a pherfformiad, a oedd yn cael effaith andwyol ar forâl a llesiant y staff. Roedd yn amlwg yn ystod yr ymweliad hwn fod yr uned wedi bod ar daith wella sydd wedi arwain at newid cadarnhaol i ddiwylliant, awyrgylch ac amgylchedd yr uned gyfan. Mae'r uwch-reolwyr wedi cyflawni cynllun gwella sydd wedi'i ddatblygu gan ystyried argymhellion a wnaed yn dilyn ymweliadau blaenorol gan AGIC, yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol, a Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru. Roedd ymdeimlad bod y newidiadau sydd wedi'u gwneud wedi bod yn bosibl drwy ymdrech ar y cyd rhwng yr uwch-reolwyr, y staff a'r bobl ifanc eu hunain. Roedd y gwasanaeth fel pe bai'n rhagweithiol yn hytrach nag yn ymatebol erbyn hyn, ac er bod angen gwneud rhagor o waith, dylid cydnabod y gwelliant sydd wedi'i wneud hyd yma. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol yn yr holiadur:

“Mae llawer o newidiadau wedi'u gwneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae cyfarfodydd gwella rheolaidd wedi helpu i rannu a thrafod y newidiadau sydd eu hangen â phob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol dan sylw.”

Ar lefel cyfarwyddiaeth, roedd yn amlwg bod cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal i drafod cynnydd parhaus tuag at fodloni amcanion y cynllun gwella ar gyfer yr uned. Ar lefel weithredol, gwelsom fod prosesau llywodraethu a goruchwyllo priodol ar waith o ran nodi a thrafod materion yn ymwneud â gofal y cleifion a nodi gwelliannau pellach. Gwelsom fod pawb yn cydweithio'n dda â'i gilydd drwy gydol yr arolygiad.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur ynglŷn â'u rheolwyr llinell uniongyrchol. Teimlai'r mwyafrif o'r staff y gallent ddibynnu ar eu rheolwr i'w helpu i gyflawni tasgau anodd yn y gwaith a'u bod yn gofyn am eu barn cyn mynd ati i wneud penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith. Roedd y mwyafrif o'r staff hefyd yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn weladwy a bod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o staff fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd yn gadarnhaol gweld bod

cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar y cyfan yn uchel ymhlith y staff yn yr uned. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl.

Teimlai'r mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur y gallent fodloni'r holl ofynion croes yn ystod eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith.

Ar adeg ein harolygiad, roedd yn ymddangos bod niferoedd digonol o staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion a aseswyd y bobl ifanc yn yr uned. Fodd bynnag, roedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio er mwyn ymdopi ag unrhyw brinder staff. Dywedwyd wrthym fod yr un aelodau o staff asiantaeth sy'n gyfarwydd â'r uned yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn rhoi cysondeb i'r bobl ifanc. Dywedwyd wrthym hefyd am yr ymdrechion i recriwtio mwy o staff parhaol. Fodd bynnag, roedd dwy ran o dair o'r staff a gwblhaodd holiaduron yn anghytuno bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Gwnaed y sylw canlynol hefyd:

“Rwyf wedi gweithio yn Tŷ Llidiard ers nifer o flynyddoedd. Fy mhrif bryder yw'r lefelau staffio. Rydyn ni mor brin o staff yn yr uned nes bod hynny'n effeithio ar fy nodiadau, fy nghyswllt â'r cleifion a fy iechyd meddwl.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd drafod y materion a godwyd mewn perthynas â lefelau staffio â'r staff, er mwyn deall eu pryderon yn llawn.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod y staff yn annog y bobl ifanc i roi adborth. Roedd cyfarfod cymunedol wythnosol yn cael ei gynnal bob dydd Sul er mwyn i'r staff roi gwybod i'r bobl ifanc am weithgareddau yn yr uned. Roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i'r bobl ifanc godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt.

Roedd ffurflenni adborth ar gael i'r bobl ifanc eu cwblhau pe baent yn dymuno gwneud hynny. Dywedwyd wrthym fod y staff yn neilltuo amser ar ddiwedd y cyfarfod cymunedol i drafod pa gamau sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'r materion a godwyd gan y bobl ifanc. Cymerir cofnodion o'r rhan 'dywedoch chi, gwnaethom ni' hon o'r cyfarfod, a gaiff eu rhoi ar yr hysbysfwrdd er mwyn i'r holl bobl ifanc eu gweld.

Gwelsom fod holiadur wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu i gasglu adborth gan y rhieni a'r gofalwyr am eu profiadau yn yr uned. Er bod hyn yn fenter gadarnhaol, wrth edrych ar y canlyniadau blaenorol a ddarparwyd i ni, gwelsom mai dim ond

pedwar ymateb a gafwyd hyd yma yn 2023. Ymddengys fod hyn yn gyfle a gollwyd, a dylai'r gwasanaeth ystyried sut y gall gynyddu nifer yr holiaduron a gaiff eu cwblhau gan rieni a gofalwyr, a pha mor aml y cânt eu cwblhau.

Dywedodd bron hanner y staff a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn deall y ddyletswydd gonestrwydd na'u rôl o ran cyrraedd safonau'r ddyletswydd gonestrwydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar y ddyletswydd gonestrwydd er mwyn ei helpu i ddeall ei gyfrifoldebau o ran helpu i fodloni'r gofynion cyfreithiol newydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Dywedwyd wrthym fod y polisiau a'r gweithdrefnau lleol a ddatblygwyd gan y gyfarwyddiaeth ar gael i bob aelod o'r staff ar dudalennau'r fewnwyd, a'u bod yn gyfredol. Serch hynny, rydym wedi nodi drwy gydol yr adroddiad hwn fod rhai o bolisiau'r bwrdd iechyd a oedd wedi dyddio, sy'n dal yn berthnasol i'r staff sy'n gweithio yn yr uned. Dylai'r bwrdd iechyd geisio cefnogi staff gydag unrhyw ganllawiau y gallai fod eu hangen arnynt tra bydd polisiau'r bwrdd iechyd yn cael eu hadolygu.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Fel rhan o'r cynllun gwella ar gyfer yr uned, mae newidiadau amgylcheddol a wnaed i'r ffordd y mae'r ward cael ei gosod wedi cael effaith gadarnhaol. Dywedwyd wrthym am newidiadau pellach sydd wedi'u cynnig i ddatblygu'r uned fel rhan o 'gam dau' y broses adnewyddu, a fyddai'n helpu i wella'r gwasanaeth a ddarperir a phrofiad pobl ifanc yn yr uned ymhellach.

Teimlai'r mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, a'u bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i hynny. Roedd y mwyafrif o'r staff hefyd yn teimlo'n hyderus y byddai'r sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ac y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau na fyddent yn digwydd eto.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal yn y cynlluniau gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arnynt, ynghyd â chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, y cydgysylltwyr gofal a'r gwasanaethau partner perthnasol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Llidiard

Dyddiad yr arolygiad: 11, 12 a 13 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Lliardiard

Dyddiad yr arolygiad: 11, 12 a 13 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom nad oedd llwybr triniaeth wedi cael ei roi ar waith ar gyfer person ifanc a oedd wedi cael diagnosis o orthorecsia wrth gael ei dderbyn.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bobl ifanc yn cael triniaeth sy'n benodol ar gyfer eu diagnosis unigol a bod hyn yn cael ei ddogfennu'n glir yn eu cofnodion.	<p>Mae gan bob person ifanc gynllun gofal sydd wedi'i deilwra at yr unigolyn yn unol â'i ganlyniadau gofal ac sy'n cynnwys ei anghenion o ran gofal cyfannol.</p> <p>Caiff y cynlluniau gofal eu harchwilio bob mis. Mae mesurau canlyniadau yn helpu i olrhain ansawdd y gofal yn erbyn anghenion gofal y claf unigol. Mae'r archwiliad yn gofyn y cwestiynau canlynol:</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>13/11/2023</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r cynllun gofal newydd yn cael ei ddefnyddio? • A yw'n cyfleu llais/geiriau'r person ifanc? • A yw'n canolbwyntio ar ganlyniadau? • A yw wedi cael ei adolygu? • A oes tystiolaeth o ddull tîm amlddisgyblaethol? <p>Caiff meysydd dysgu eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm a'u rhannu'n electronig â'r tîm amlddisgyblaethol.</p>		
Roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw yn ardaloedd awyr agored yr uned.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wella edrychiad y gerddi er budd therapiwtig y bobl ifanc a sicrhau y cânt eu cynnal a'u cadw'n barhaus yn y dyfodol.	Mae gan yr adran Cyfleusterau amserlen ar gyfer cynnal a chadw'r gerddi, ac mae'r tîm rheoli lleol yn cynnal gwiriadau amgylcheddol misol ac yn gofyn am waith cynnal a chadw ychwanegol yn y gerddi yn ôl yr angen.	Rheolwr Ardal Tŷ Lliardiard	Wedi'i gwblhau 13/11/2023

		Mae tîm Tŷ Llidiard wedi bod yn gweithio gyda Phennaeth Profiad Pobl y Bwrdd Iechyd ac wedi trefnu i sefydliad gwirfoddol helpu i gynnal a chadw'r gerddi.	Rheolwr Ardal Tŷ Llidiard Pennaeth Profiad Pobl	
Yn ystod ein cyfnod yn yr uned, nid oedd bob amser yn glir beth oedd dewis iaith pob person ifanc.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dewis iaith pob person ifanc ei gofnodi mewn lle hygyrch er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol ohono.	<p>Mae rhan A y ffurflen atgyfeirio yn cynnwys awgrym i ddogfennu dewis iaith y person ifanc. Caiff hon ei ffeilio y tu blaen i gofnod y claf fel bod modd cyfeirio ati'n hawdd. Gweler y ddogfen atodedig, lle mae dewis iaith wedi'i amlygu'n felyn.</p> <p>Bydd yr ysgrifenyddion meddygol yn sicrhau bod y ddogfen atgyfeirio wedi'i chwblhau'n llawn cyn ei chadw yn ffeil y claf.</p> <p>Mae Rhan A yn cynnwys demograffeg y claf, a chaiff ei ffeilio y tu blaen i'r cofnod meddygol gan glerc y ward.</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Llidiard</p> <p>Rheolwr Ardal Tŷ Llidiard</p> <p>Rheolwr Ardal Tŷ Llidiard</p>	Wedi'i gwblhau 13/11/2023

<p>Roedd y polisi rheoli cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi dyddio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.</p>	<p>Bydd y bwrdd iechyd yn diweddarau'r polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</p>	<p>Rheolwr Cydraddoldeb</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2024</p>
<p>Gwnaethom nodi rhai ardaloedd yn yr uned lle roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw waith atgyweirio a chynnal a chadw ei gwblhau mewn modd amserol.</p>	<p>Mae'r tîm nyrsio yn cynnal gwiriadau amgylcheddol dyddiol er mwyn helpu i uwchgyfeirio unrhyw bryderon am waith cynnal a chadw yn gynnar.</p> <p>Mae gweithdrefn weithredol ar waith i dywys y staff drwy'r system ar gyfer cofnodi gwaith cynnal a chadw amgylcheddol</p> <p>Diweddarau'r cofnod Cyfleusterau i adlewyrchu adroddiadau a chymau gweithredu gofynnol.</p> <p>Bydd yr Uwch-nyrs yn uwchgyfeirio pryderon am waith cynnal a chadw amgylcheddol drwy'r</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lldiard</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lldiard</p> <p>Staff y dderbynfa</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lldiard</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>

		<p>adroddiad Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad.</p> <p>Gall y Rheolwr Ardal uwchgyfeirio unrhyw faterion drwy'r cyfarfod Iechyd a Diogelwch.</p>	Rheolwr Ardal Tŷ Lliardiard	
<p>Nid oedd y staff yn siŵr pwy oedd yn gyfrifol am lanhau'r dodrefn awyr agored. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gellid gwella hylendid yn nhoiledau'r staff.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi eglurder ac arweiniad ar gyfrifoldebau'r staff er mwyn sicrhau y caiff yr ardaloedd awyr agored a thoiledau'r staff eu glanhau'n effeithiol.</p>	<p>Mae cynnal a chadw'r dodrefn gardd awyr agored wedi cael ei ychwanegu at restr wirio amgylcheddol ddyddiol y staff nyrsio. Caiff y rhestr wirio amgylcheddol ddyddiol ei harchwilio'n fisol a chaiff gwersi a ddysgwyd drwy gyfarfodydd y nyrsys.</p> <p>Diwygiwyd yr amserlen lanhau i gynnwys glanhau toiledau'r staff ddwywaith y dydd ar 06/11/2023.</p> <p>Ychwanegwyd atal a rheoli heintiau at agenda cyfarfodydd y nyrsys.</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p> <p>Arweinydd y Tîm Cyfleusterau</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>
<p>Gwelsom ddarn llychlyd o gyfarpar aml dro ac ni welsom</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith i roi gwybod i'r staff</p>	<p>Creu Gweithdrefn Weithredu Safonol i ategu canllawiau ar</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>unrhyw gofnodion i ddangos bod y cyfarpar hwn yn cael ei lanhau.</p>	<p>pan fydd y cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau ac, felly, yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p>	<p>lanhau cyfarpar meddygol aml dro bob tro ar ôl ei ddefnyddio. Bydd pob darn o gyfarpar meddygol aml dro yn cael ei lanhau ar ôl pob cyswllt â chlaf a bydd tâp dilysu gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i ddangos ei fod yn lân.</p>		<p>13/11/2023</p>
<p>Gwnaethom siarad â nifer o aelodau gwahanol o'r staff nad oeddent yn gwybod pwy oedd yr arweinydd atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl aelodau o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd atal a rheoli heintiau ac yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau er mwyn iddynt allu uwchgyfeirio unrhyw bryderon a all fod ganddynt yn briodol.</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 a lefel 2 ar atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliard</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>
		<p>Mae canllawiau bellach yn cael eu harddangos yn nodi enw a manylion cyswllt yr arweinydd atal a rheoli heintiau.</p> <p>Ychwanegwyd atal a rheoli heintiau at agenda cyfarfodydd y nyrsys.</p>		

<p>Roedd yr ystafell golchi dillad yn boeth iawn, roedd gwyntyllau'r nenfwd yn llychlyd ac roedd yn ymddangos bod y drws yn anodd i'r staff ei agor.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd a wneir o'r ystafell golchi dillad er mwyn gwella ei chyflwr a gostwng ei thymheredd fel ei bod yn fwy cyfforddus i'r staff ei defnyddio.</p>	<p>Mae'r materion a nodwyd wedi cael eu datrys, mae'r gwyntyllau wedi cael eu glanhau ac mae'r drws wedi cael ei addasu.</p> <p>Mae unedau aerdymheru cludadwy wedi cael eu prynu a gellir eu defnyddio yn yr ystafell hon er mwyn gostwng y tymheredd.</p>	<p>Rheolwr Ardal Tŷ Lliardiard</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>
<p>Roedd y polisi rheoli meddyginiaethau wedi dyddio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi rheoli meddyginiaethau ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r polisi rheoli meddyginiaethau.</p>	<p>Prif Fferylllydd</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2024</p>
<p>Gwelsom nifer bach o fylchau ar daflen cofnodi tymheredd yr oergelloedd yn yr ystafell glinig.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath.</p>	<p>Caiff y gwiriadau o dymheredd yr oergelloedd eu harchwilio'n fisol.</p> <p>Mae canfyddiadau archwiliadau yn rhan o agenda</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>

		cyfarfod wythnosol y nyrsys. Caiff y cofnodion eu rhannu â'r tîm nyrsio ehangach.		
Roedd yr ystafell glinig yn boeth iawn ac nid oedd tymheredd yr ystafell yn cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod bob amser islaw'r tymheredd storio a argymhellir ar gyfer y feddyginiaeth yn yr ystafell.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC am y camau a gymerwyd ers yr arolygiad i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.	Gwiriadau o dymheredd yr ystafell glinig yn weithredol o 13.09.23. Caiff cydymffurfiaeth ei harchwilio bob mis a chaiff meysydd dysgu eu rhannu drwy gyfarfodydd y nyrsys. Mae unedau aerdymheru cludadwy wedi cael eu prynu a byddant yn cael eu defnyddio os bydd y tymheredd yn codi uwchlaw 25 gradd. Crëwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol er mwyn helpu'r staff i sicrhau nad yw tymheredd yr ystafell glinig yn codi uwchlaw 25 gradd.	Uwch-nyrs Tŷ Lldiard Uwch-nyrs Tŷ Lldiard	Wedi'i gwblhau 13/11/2023
Gwelsom fod rhai deunyddiau glanhau fel Sterichlor yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi o dan y sinc.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a allai fod yn niweidiol yn cael eu storio'n briodol dan glo bob amser.	Mae clinig newydd yn yr uned erbyn hyn lle gellir cloi'r holl gypyrddau. Mae'r holl ddeunyddiau glanhau a	Uwch-nyrs Tŷ Lldiard	Wedi'i gwblhau 13/11/2023

		ddefnyddir gan y staff nyrsio bellach yn cael eu storio'n gywir.		
Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gwybod beth i'w wneud pe bai rhywun yn cael adwaith andwyol i gyffur.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu hyfforddiant i'r staff er mwyn egluro'r hyn a ddisgwylir gan staff mewn perthynas â rhoi gwybod i'r cyrff perthnasol, er enghraifft yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, am adweithiau andwyol i gyffuriau drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.	<p>Caiff meddyginiaethau ar bresgripsiwn eu trafod a'u hadolygu gan y tîm amlddisgyblaethol. Mae trafodaethau o'r fath yn cynnwys effeithiau andwyol a therapiwtig posibl y mae angen eu monitro a dogfennaeth glir yng nghofnodion y tîm amlddisgyblaethol.</p> <p>Caiff y rheini hynny a allai wynebu adweithiau andwyol eu rheoli'n feddygol fel sy'n briodol ac mae cynllun gofal y claf unigol yn adlewyrchu hynny.</p> <p>Mae Tŷ Llidiard yn cael cymorth gan fferylllydd iechyd meddwl dynodedig sy'n ymweld â'r uned ac sydd ar gael i helpu'r staff i reoli</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Llidiard</p> <p>Arweinydd Clinigol</p> <p>Fferylllydd Clinigol Iechyd Meddwl Tra Arbenigol</p>	Wedi'i gwblhau 13/11/2023

		adweithiau andwyol i gyffuriau.		
		Mae'r nyrsys cofrestredig wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd brys pediatrig, sy'n cynnwys rheoli adweithiau andwyol i gyffuriau.	Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard	
Nid oedd cylchdroi'r fwydlen bob pythefnos yn cynnig llawer o amrywiaeth i'r bobl ifanc.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr adborth hwn ac ystyried, ar y cyd â'r staff a'r bobl ifanc, a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r dewisiadau ar y fwydlen a'u hamlder.	Cyfarfu deietegydd Tŷ Lliardiard â'r bobl ifanc er mwyn adolygu'r fwydlen. Ers hynny, mae'r fwydlen wedi cael ei diwygio yn unol â dewisiadau a gofynion maethol y bobl ifanc. Bydd yn parhau i gael ei hadolygu drwy'r cyfarfod cymunedol wythnosol.	Deietegydd Tŷ Lliardiard	Wedi'i gwblhau 13/11/2023
Ni welsom dystiolaeth bod y bobl ifanc yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'u hawliau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff y rhoi gwybod i'r bobl ifanc am eu hawliau yn rheolaidd yn unol â Chod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru, yn arbennig yn dilyn newid i amgylchiadau'r person ifanc.	Mae ysgogiad i gynnal adolygiadau amserol a hylifol o ddealltwriaeth pob person ifanc o'i hawliau fel claf anffurfiol neu glaf sy'n cael ei gadw bellach wedi'i gynnwys yng nghynllun gofal y claf. Caiff y cynllun gofal ei	Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard	Wedi'i gwblhau 13/11/2023

		<p>adolygu'n wythnosol gan y person ifanc a nyrs a enwir.</p> <p>Mae rheolwr y ward y cynnal gwiriadau misol o ansawdd y cynlluniau gofal, a chaiff y canfyddiadau eu cofnodi ar AMaT a'u rhannu drwy gyfarfodydd y nyrsys. Rhennir cofnodion cyfarfodydd y nyrsys â'r tîm nyrsio ehangach.</p>	Rheolwr y Ward	
<p>Dim ond nodiadau elfennol am asesiadau o alluedd a welsom yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o alluedd meddyliol y bobl ifanc eu cwblhau gan ddefnyddio'r ffurflenni asesu galluedd sydd ar gael ac y cânt eu storio'n briodol yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Bydd grŵp gofal yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn datblygu ffurflen Asesu Galluedd Meddyliol safonol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2024</p>
<p>Awgrymodd y staff nad oedd y patrymau gweithio cyfredol yn rhoi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.</p>	<p>Er ei bod yn bosibl nad yw shifftiau 12 awr yn briodol ar gyfer Tŷ Lldiard, rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth hwn a pharhau i drafod y mater hwn â'r staff, er mwyn nodi datrysiadau amgen a fydd yn helpu i leddfu pryderon y staff a</p>	<p>Mae'r Pennaeth Nyrsio wedi cwblhau adolygiad o wardiau cleifion mewnol Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Cwm Taf Morgannwg yn ddiweddar.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>

	gwella eu cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.	Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried newidiadau i batrymau shifftiau ac mae argymhellion wedi'u gwneud i dreialu a gwerthuso'r defnydd o shifftiau 12 awr.		
Dywedodd y staff wrthym fod prinder staff yn yr uned ar adegau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd drafod y materion a godwyd mewn perthynas â lefelau staffio â'r staff, er mwyn deall eu pryderon yn llawn.	<p>Caiff nyrsys cofrestredig eu cynnwys yn yr asesiad o aciwtedd fesul shifft. Mae hyn yn helpu i gynllunio adnoddau ychwanegol i ddiwallu anghenion y cleifion.</p> <p>Mae niferoedd y nyrsys a ariennir yn unol â safonau'r Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i Gleifion Mewnol. Cefnogir goramser, staff banc a staff asiantaeth i lenwi swyddi pan fydd y niferoedd islaw'r hyn a ariennir.</p> <p>Caiff lefelau aciwtedd wythnosol ei asesu gan ddefnyddio Lefelau Gofal. Mae</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p>	Wedi'i gwblhau 13/11/2023

		<p>hyn yn helpu i adrodd am aciwtedd cleifion yn yr uned.</p> <p>Ychwanegwyd lefelau staff nyrsio at agenda'r cyfarfodydd nyrsio er mwyn sicrhau y rhoddir cyfle i'r staff drafod unrhyw bryderon a all fod ganddynt mewn perthynas â lefelau staff nyrsio.</p> <p>Gellir uwchgyfeirio unrhyw bryderon am lefelau staffio drwy adroddiad Ansawdd, Diogelwch, Risg, a Phrofiad yr uwch-nyrs.</p> <p>Mae'r Pennaeth Nyrsio yn cynnal sesiynau galw heibio wythnosol lle y gall staff godi pryderon, gan gynnwys pryderon am lefelau staffio.</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	
<p>Dyweddodd y staff wrthym nad oeddent yn deall y ddyletswydd gonestrwydd na'u rôl o ran cyrraedd safonau'r ddyletswydd gonestrwydd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar y ddyletswydd gonestrwydd er mwyn ei helpu i ddeall ei gyfrifoldebau o ran helpu i fodloni'r gofynion cyfreithiol newydd.</p>	<p>Rhannwyd taflen cyngor â'r tîm amlddisgyblaethol llawn. Mae hyn wedi cael ei nodi drwy fotymau pleidleisio ar-lein er mwyn helpu i olrhain staff dealltwriaeth aelodau o'r</p>	<p>Uwch-nyrs Lliardiard</p> <p>Tŷ</p>	<p>Wedi'i gwblhau 13/11/2023</p>

		<p>staff o'r safonau a lle y gall fod angen cymorth ychwanegol.</p> <p>Ychwanegwyd rolau a chyfrifoldebau o dan y ddyletswydd gonestrwydd at hyfforddiant sefydlu'r tîm amlddisgyblaethol.</p> <p>Er mwyn helpu i sicrhau dysgu a datblygiad, mae hyfforddiant sefydlu aelodau newydd o'r staff yn destun archwiliadau bob tri mis.</p>	<p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p> <p>Uwch-nyrs Tŷ Lliardiard</p>	
--	--	---	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lloyd Griffiths

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 13 Tachwedd 2023